Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Fframwaith Rheoleiddio – Adroddiad ar Ganlyniadau'r Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Trosolwg

1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r adborth a gafwyd ar draws dau gam ymgynghori ar system reoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru ac yn nodi sut y mae'r adborth hwnnw wedi goleuo datblygiad y fframwaith terfynol. Digwyddodd y datblygiad hwn yn ystod cyfnod o bwysau sylweddol ar gyfer darparwyr, ac roedd ymatebion yn gyson yn amlygu'r angen am system reoleiddio sy'n eglur, yn gymesur ac yn ddichonadwy ar draws sector amrywiol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif themâu a godwyd a'r addasiadau a wnaed mewn ymateb.

2. Cynhaliodd Medr ddau ymgynghoriad statudol ffurfiol fel rhan o'r broses hon. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf rhwng 15 Mai ac 18 Gorffennaf 2025 ac roedd yn canolbwyntio ar gyfeiriad cyffredinol y fframwaith rheoleiddio. Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad rhwng 22 Hydref ac 17 Rhagfyr 2025 ac roedd yn ceisio barn pobl ynglŷn â'r set lawn o amodau drafft, gan gynnwys dogfennaeth statudol ac anstatudol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ymatebion yng ngham 2, gan mai'r rhain sy'n cynrychioli'r adborth mwyaf manwl a sylweddol ar y system reoleiddio ddrafft. Caiff yr ymatebion yng ngham 1 eu crynhoi i ddarparu cyd-destun.

3. Ar draws y ddau gam, cynhaliodd Medr raglen ymgysylltu eang i ategu dealltwriaeth o'r cynigion a chasglu barn pobl ar draws y sector. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda phrifysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, awdurdodau lleol, lleoliadau chweched dosbarth, undebau llafur, cynrychiolwyr dysgwyr a'r dysgwyr eu hunain. Bu'r ymgysylltiad hwn yn ddefnyddiol i adnabod meysydd lle mae angen mynegi'n fwy eglur, cymesuredd gwell ac aliniad cryfach â phrosesau ansawdd, arolygu a data presennol.

4. Gwnaeth cam dau ehangu'r ymgysylltu hwn trwy ddigwyddiadau mawr yn y cnawd, gweminarau ar bynciau penodol, sesiynau dysgwyr, a gweithdai i awdurdodau lleol, lleoliadau chweched dosbarth a chyrff cynrychiolaidd. Gwnaeth y sesiynau hyn brofi a oedd newidiadau a wnaed i fireinio'r system ar ôl cam un yn ei gwneud yn fwy eglur, cymesur ac ymarferol.

5. Daeth nifer o themâu i'r amlwg yn gyson ar draws y ddau ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y system reoleiddio newydd ond yn pwysleisio'r angen i wahaniaethu'n fwy rhwng gofynion statudol a chanllawiau cynghori, yr angen am gymesuredd ar draws mathau o ddarparwyr a'r angen i osgoi dyblygu â phrosesau presennol. Gwnaeth darparwyr amlygu pwysigrwydd monitro rhagweladwy, sy'n seiliedig ar risg, ymgysylltu cynnar ac eglurder ynghylch diben gwahanol ryngweithiadau. Gwnaeth ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd diogelu ymreolaeth sefydliadol ac osgoi canfyddiadau am "orgyrraedd rheoleiddiol" hefyd.

6. Ar draws cwestiynau caeëdig cam dau, roedd ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y byddai'r dull a oedd wedi'i nodi yn yr amodau'n cyflawni eu bwriad sylfaenol, ond roedd llai o gytundeb bod y dull yn gymesur a llai fyth o gytundeb ei fod yn eglur. Mewn ymateb i'r patrwm hwn, gwnaethom adolygu cymesuredd pob amod, cryfhau eglurder a strwythur y drafftio, a mireinio'r deunyddiau ategol lle'r oedd yn briodol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda darparwyr, dysgwyr a chyrff cynrychiolaidd

i ategu dealltwriaeth gyffredin o strwythur cyffredinol y Fframwaith Rheoleiddio a'r disgwyliadau ym mhob amod unigol.

7. Mewn ymateb i'r adborth hwn, rydym wedi egluro a symleiddio'r amodau, wedi cryfhau cymesuredd ar draws llywodraethu, cyllid, adrodd a gofynion ansawdd, ac wedi sicrhau gwahanu mwy cyson rhwng gofynion, tystiolaeth o gydymffurfio a chanllawiau. Gwnaethom gryfhau aliniad â phrosesau arolygu a rheoleiddio presennol. Cafodd y model monitro ei fireinio i bwysleisio gwahaniaeth eglur rhwng gweithgarwch sicrwydd a deialog strategol ehangach, ailddefnydd o dystiolaeth bresennol ac ymgysylltu cynnar, cymesur. Trwy gydol y gwaith hwn, gwnaethom sicrhau bod y disgwyliadau'n dal i gyd-fynd â'r dyletswyddau statudol a nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (y Ddeddf) ac y gellir eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr trydyddol.

8. Pan ddechreuir rhoi'r system reoleiddio ar waith, bydd gofyn ei mireinio ymhellach wrth i drefniadau ymarferol ddatblygu. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar weithrediadau monitro, datblygu templedi, alinio cylchoedd sicrwydd a mireinio diffiniadau. Bydd Medr yn parhau i weithio gyda darparwyr, dysgwyr a phartneriaid trwy 2026/27 i ategu dealltwriaeth well am y system newydd, mireinio disgwyliadau a sicrhau bod dulliau'n dal i fod yn gymesur, yn gyson ac yn effeithiol wrth i fonitro rheolaidd ddechrau yn 2027. Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhagor o ddogfennaeth, offer a deunyddiau ategol yn ystod 2026/27 i roi cymorth i roi'r system ar waith. Bydd y rhain yn cynnwys canllawiau, templedi a gwybodaeth sector-benodol i roi cymorth i ddehongli'r fframwaith rheoleiddio mewn modd cyson.

## Crynodeb o Gam 1

### Trosolwg

9. Gwnaeth yr ymgynghoriad cyntaf, a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2025, archwilio cyfeiriad cyffredinol system reoleiddio arfaethedig Medr a rhoi arwydd cynnar o sut yr oedd y fframwaith a oedd yn dod i'r amlwg yn cael ei ddeall ar draws y sector. Daeth ymatebion o blith trawstoriad eang o ddarparwyr addysg drydyddol, cyrff cynrychiolaidd, undebau llafur, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill. Er bod ymatebwyr yn cefnogi bwriad Medr i sefydlu system eglur, gymesur a chydlynus yn gyffredinol, fe wnaethant hefyd adnabod nifer o feysydd lle'r oedd angen datblygu, egluro neu fireinio'r cynigion cynnar ymhellach. Gwnaeth y mewnwelediadau hyn siapio'r gwaith ailddrafftio sylweddol a ddigwyddodd cyn yr ail ymgynghoriad. Mae Atodiad A yn darparu manylion y cwestiynau meintiol a gynhwyswyd yn ymgynghoriad cam un.

10. Un o'r themâu cyson yng ngham 1 o'r ymgynghoriad oedd yr angen am strwythur mwy eglur a gwahaniaeth mwy eglur rhwng gwahanol fathau o ddisgwyliadau. Roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd yr amodau drafft a'r dogfennau ategol yn gwahaniaethu digon bob amser rhwng gofynion statudol, disgwyliadau sy'n rhan o sicrwydd cydymffurfio, a chanllawiau ehangach at ddiben cynghori neu i amlygu arferion da. Roedd ymatebwyr o'r farn bod rhai adrannau'n rhy rhagnodol neu'n niwlo'r ffin rhwng llywodraethu a arweinir gan ddarparwyr a goruchwyliaeth reoleiddiol. Gofynnodd ymatebwyr i ni fynegi'n fwy eglur ble y mae rhwymedigaethau rheoleiddiol yn dechrau ac yn gorffen, a ble y dylai prosesau sefydliadol mewnol gadw hyblygrwydd ac ymreolaeth. Gwnaeth yr adborth hwn oleuo gwaith i ailstrwythuro pob amod sydd, yn y drafft diwygiedig, yn gwahanu'n glir rhwng yr hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr ei wneud, pa dystiolaeth all ddangos eu bod yn cydymffurfio a ble y mae canllawiau wedi'u bwriadu i roi cymorth i ddehongli.

11. Roedd pryderon ynghylch baich cronnus a dyblygu'n amlwg hefyd. Gwnaeth darparwyr amlygu eu bod eisoes yn cynhyrchu tystiolaeth helaeth ar gyfer Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), cyrff dyfarnu, arolygiaethau a chasgliadau data cenedlaethol. Gwnaethant bwysleisio'r angen i Medr adeiladu ar y ffynonellau presennol hyn yn hytrach na chreu prosesau cyfochrog. Gwnaeth ymatebwyr amlygu hefyd y gallai baich godi nid o un gofyniad ond o'r cydadwaith rhwng nifer o amodau, templedi a disgwyliadau. Gwnaethant bwysleisio bod angen i amserlenni, cylchoedd a mecanweithiau adrodd fod yn ymarferol, yn gymesur ac wedi'u halinio â phrosesau mewnol ac allanol presennol. Gwnaeth hyn beri i ni fabwysiadu egwyddor ailddefnyddio tystiolaeth bresennol lle bynnag y bo'n briodol a mireinio'r dull monitro i wneud mwy o ddefnydd o ddata cenedlaethol a threfniadau sicrhau ansawdd sefydledig.

12. Roedd cymesuredd yr anghenion hefyd yn thema yn yr adborth. Gwnaeth ymatebwyr nodi amrywiaeth y ddarpariaeth drydyddol, gan gynnwys prifysgolion, colegau, chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a sefydliadau arbenigol. Gwnaethant bwysleisio y dylai maint y gofynion fod yn briodol ar draws darparwyr sydd o wahanol feintiau, ac sydd â gwahanol genadaethau a modelau llywodraethu. Roedd rhai darparwyr llai'n pryderu'n arbennig bod risg y gallai drafftiau cynnar

osod strwythurau neu ddisgwyliadau nad oeddent yn gweddu i'w cyd-destunau hwy. Gwnaeth yr adborth hwn oleuo gwaith i ailddrafftio amodau unigol a'r dull ehangach o fonitro, gan sicrhau bod disgwyliadau'n gymesur ac yn gallu cael eu cymhwyso'n gyson heb dybio mai un model sefydliadol sy'n bodoli.

13. Cafodd y dull o fonitro ddenu cryn ddiddordeb a phryder. Roedd ymatebwyr yn croesawu egwyddor model rhagweladwy, sy'n seiliedig ar risg ond yn gofyn am lawer mwy o eglurder ynghylch ei weithrediad ymarferol. Gofynnom ni am wahaniaethu'n glir rhwng sicrwydd sydd â ffocws ar gydymffurfio a deialog strategol ehangach, yn ogystal â phrosesau tryloyw ar gyfer sut y mae ymdrin â phryderon cynnar. Gwnaeth llawer o ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd creu amgylchedd lle gallai darparwyr godi materion yn gynnar heb ofni canlyniadau anghymesur. Roedd cwestiynau hefyd ynghylch rôl data, sut y byddai'n cael ei ddehongli a sut y byddai gwahaniaethau cyd-destunol rhwng darparwyr a charfannau o fyfyrwyr yn cael eu hystyried. Gwnaeth y sylwadau hyn siapio'r gwaith i ailddylunio'r model monitro cyn cam dau yn uniongyrchol, gan arwain at wahaniad mwy eglur rhwng mathau o ymgysylltu ac ymrwymiadau mwy datganedig i ddeialog gynnar, gymesur ac ailddefnyddio tystiolaeth bresennol.

14. Roedd adborth ar ddisgwyliadau a oedd yn gysylltiedig ag ansawdd a dysgwyr yn amlygu'r angen am eglurder ac aliniad. Gofynnodd ymatebwyr am ddiffiniad mwy eglur o 'ansawdd' yn y system reoleiddio ac am wahaniaethu rhwng y gofynion sylfaenol ar gyfer cydymffurfio ar y naill law a disgwyliadau ehangach ar gyfer gwella ar y llaw arall. Gwnaethant bwysleisio'r angen i osgoi dyblygu â phrosesau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) a phwysleisio bod rhaid i unrhyw ddata neu ddangosyddion newydd fod yn dryloyw, wedi'u cyd-destunoli ac yn destun ymgynghori. Gwnaeth dysgwyr a chyrff cynrychiolaidd nodi mor bwysig yw gwreiddio llais y dysgwr, sicrhau prosesau cwynion gweladwy a theg a diogelu dysgwyr pan fo darpariaeth yn newid. Gwnaeth y themâu hyn oleuo newidiadau i fireinio'r amod ynglŷn ag ansawdd a'r elfennau sy'n ymwneud â diogelu dysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr yn y fframwaith.

15. Roedd llywodraethu a chynaliadwyedd ariannol yn feysydd lle gofynnodd ymatebwyr am fynegi rolau a disgwyliadau'n fwy eglur. Roedd rhai'n teimlo bod rhannau o'r drafftiau cynnar i'w gweld yn orgyfarwyddol neu fod risg eu bod yn awgrymu prosesau cymeradwyo nad oeddent yn alinio ag ymreolaeth neu gyfrifoldebau llywodraethu darparwyr. Gofynnodd darparwyr am ddiffiniadau mwy eglur, prosesau mwy rhagweladwy, a chydnabyddiaeth ddatganedig i rôl briodol cyrff llywodraethu. Gwnaeth darparwyr llai o faint amlygu'r angen i addasu maint y disgwyliadau a lleihau i'r eithaf y dyblygu rhwng amodau sy'n ymwneud â llywodraethu a chynaliadwyedd ariannol. Rhoddodd y pryderon hyn arweiniad ar gyfer diwygiadau i sicrhau bod y fframwaith yn dal i fod â ffocws ar ddeilliannau, yn dal i fod yn seiliedig ar risg ac yn dal i fod yn gyson ag egwyddorion llywodraethu sefydledig ar draws y sector.

16. Gofynnodd ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder ynghylch llwybrau adrodd, trothwyon yn hynny o beth, a hysbysiadau. Amlygwyd y potensial ar gyfer dryswch lle'r oedd hysbysiadau am newidiadau a digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd yn gorgyffwrdd a gofynnwyd am sicrhau bod gofynion yn canolbwyntio ar berthnasedd ac yn osgoi creu gwaith gweinyddol di-baid. Gwnaeth y pwyntiau hyn oleuo

disgrifiad mwy eglur o drothwyon, llinellau amser ac enghreifftiau a gyflwynwyd cyn cam dau.

17. Ar draws y meysydd hyn, pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am gysondeb ar draws y system yn ei chyfanrwydd. Gofynnwyd am sicrhau bod yr amodau'n darllen fel un fframwaith integredig yn hytrach na gofynion sydd ar wahân i'w gilydd neu'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Gwnaethant hefyd bwysleisio'r angen i'r system barchu ymreolaeth sefydliadol, diogelu statws Sefydliadau nid-er-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd ac osgoi unrhyw ganfyddiad am orgyrraedd rheoleiddiol. Bu'r pryderon hyn yn ddefnyddiol wrth siapio'r gwaith i ailddrafftio a mireinio dogfennaeth ategol.

18. I grynhoi, darparodd yr ymgynghoriad cyntaf y sylfaen ar gyfer adeiladu'r fframwaith diwygiedig a gyflwynwyd yng ngham dau. Adnabu'r prif themâu yr oedd angen eu hegluro, eu symleiddio a'u trin yn gyson ar draws y system. Roedd y newidiadau a wnaed rhwng cam un a cham dau – gan gynnwys strwythur mwy cyson, iaith fwy eglur, cymesuredd cryfach, aliniad gwell â phrosesau sicrwydd presennol a model monitro mwy tryloyw – yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd yn uniongyrchol. Felly gwnaeth cam un sefydlu'r egwyddorion dylunio a'r gwelliannau a brofwyd yn fanwl trwy'r ail ymgynghoriad, sef prif ffocws dadansoddol yr adroddiad hwn.

# Adborth ac Ymatebion cam dau

## Trosolwg

19. Mae'r adran hon yn crynhoi'r adborth a gafwyd trwy ail ymgynghoriad Medr ynghylch y system reoleiddio newydd ac mae'n egluro sut y gwnaeth yr adborth hwnnw oleuo'r newidiadau terfynol i fireinio'r fframwaith. Ail gam yr ymgynghoriad a ddarparodd yr ymatebion mwyaf manwl a sylweddol i'r amodau cofrestru neu gyllido drafft, y dull o fonitro a'r ddogfennaeth statudol ehangach, ac felly dyna'r brif sail ar gyfer y newidiadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

20. I ategu eglurder a chysondeb, cyflwynir pob elfen o'r fframwaith gan ddefnyddio strwythur cyffredin. Ar gyfer pob amod neu ddogfen, mae'r adroddiad yn darparu'r canlynol:

- prif grynodeb byr o'r ymatebion meintiol a gafwyd;
- y prif themâu a godwyd gan ymatebwyr ("dywedoch chi");
- y camau gweithredu yr ydym ni wedi'u cymryd mewn ymateb ("gwnaethom ni")
- lle y bo'n berthnasol, eglurhad o'r hyn nad ydym wedi'i newid a'r rhesymau dros hyn.

21. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gwahaniaethir yn glir rhwng adborth yr ymgynghoriad ac ymateb Medr ac yn darparu crynodeb cyson y gellir ei dracio ar draws pob rhan o'r system reoleiddio. Nid oedd pob amod yn cynnwys cwestiynau caeëdig yng ngham dau o'r ymgynghoriad. Lle'r oedd amodau eisoes wedi cael eu profi'n feintiol yng ngham un, canolbwyntiodd cam dau ar sylwadau ansoddol yn unig. O ganlyniad, mae rhai adrannau yn y bennod hon yn cyflwyno themâu ansoddol heb benawdau ar ffurf canrannau; darperir data meintiol llawn ar gyfer pob amod lle gofynnwyd cwestiynau yn **Atodiad A** (cam un) ac **Atodiad B** (cam dau).

22. Cawsom 120 o ymatebion dadansoddadwy i gam dau o'r ymgynghoriad. Cyflwynwyd y mwyafrif trwy'r platfform ymgynghori ar-lein a gyhoeddwyd ar wefan Medr, a daeth ymatebion ychwanegol i law trwy'r e-bost gan ddarparwyr, cyrff cynrychiolaidd, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill.

23. Mewn nifer o feysydd roedd yr adborth gan ddarparwyr, dysgwyr, cyrff cynrychiolaidd, undebau llafur a grwpiau rhanddeiliaid eraill yn adlewyrchu gwahanol flaenoriaethau a phrofiadau. Gwnaethom gydnabod, mewn rhai meysydd, bod gan rai grwpiau o ymatebwyr arbenigedd statudol, arbenigol neu sector cyfan penodol, ac felly gwnaethom roi sylw penodol i'r cyfraniadau hynny pan oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'u cylch gwaith neu feysydd y mae ganddynt awdurdod cydnabyddedig ynddynt. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn nodi hynny yng ngweddill yr adran hon.

## Cynaliadwyedd Ariannol

<table>
<tr><td>

**Trosolwg o’r ymatebion**

Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o’r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A.

</td></tr>
<tr><td>

**Prif themâu yn yr adborth**

- Dywedodd ymatebwyr fod angen gwahaniaethu’n fwy eglur yn y fersiwn gynharach o’r amod rhwng ei wahanol elfennau, gan gynnwys trothwyon ymrwymiad ariannol a strwythurau grŵp.
- Cwestiynodd rhai ymatebwyr y gofyniad parhaus ar gyfer proses gan Medr mewn perthynas ag adolygu trefniadau llywodraethu sy’n gysylltiedig â chymeradwyo ymrwymiadau ariannol a chymeradwyo trothwyon cysylltiedig.
- Roeddent yn teimlo bod diffyg eglurder mewn mannau a bod hynny’n creu amwysedd, gan ei gwneud hi’n anodd deall sut y dylid dehongli a chymhwyso’r amod yn gyson.
- Gofynnodd ymatebwyr am wneud disgwyliadau’n fwy cymesur, gan nodi bod risg y gallai agweddau ar y fersiwn gynharach osod baich diangen ar rai darparwyr.
- Roedd adborth hefyd yn amlygu’r angen am aliniad gwell â’r fframwaith rheoleiddio ehangach ac am leihau i’r eithaf faint o ddyblygu oedd ar draws yr amod.

</td></tr>
<tr><td>

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom fireinio iaith yr amod i leihau amwysedd yn enwedig mewn perthynas â throthwyon ymrwymiadau ariannol, y gofynion adrodd ar gyfer strwythurau grŵp a manylion unrhyw gymorth ariannol gan aelodau eraill o’r grŵp a thrydydd partïon.
- Rydym wedi cadw’r angen i Medr adolygu trefniadau llywodraethu sy’n ymwneud â chymeradwyo ymrwymiadau ariannol a throthwyon cysylltiedig. Rydym o’r farn bod y broses hon yn ymateb cymesur i’r risgiau ariannol a wynebir gan y sector.
- Rydym wedi gloywi datganiadau mewn perthynas â monitro a llywodraethu ymhellach i sicrhau bod priod rolau Medr a sefydliadau ymreolaethol yn eglur ac yn gyson yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau ynghylch ymrwymiadau ariannol.
- Gwnaethom ychwanegu fwy o hyblygrwydd o ran camau gweithredu a gofynion ar gyfer Medr i sicrhau y gellir cymhwyso’r amod yn briodol ar draws y sector cyfan, er enghraifft caniatáu ystyriaeth fesul achos unigol ar gyfer gofynion cofrestru a monitro mewn meysydd penodol.
- Cafodd yr amod ei adolygu yn erbyn yr amod llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheoli ariannol) i ailgadarnhau cysondeb ac aliniad. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd wedi’i nodi rhwng y ddwy amod, y farn oedd y

</td></tr>
</table>

byddai dileu hyn yn lleihau natur ‘unigol’ yr amodau hyn, ac yn llai perthnasol i rôl benodol y corff gweithredol a’r corff llywodraethu.

## Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

**Trosolwg o’r ymatebion**

Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o’r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y dylai’r amod fod yn berthnasol ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr, yn enwedig sefydliadau llai o faint â modelau llywodraethu amrywiol.
- Tynnwyd sylw at rywfaint o ddyblygu rhwng yr amod hwn ym maes cynllunio ariannol, rheoli risg, systemau rheoli mewnol a phrosesau monitro a sicrwydd, a’r amod Cynaliadwyedd Ariannol, a gofynnwyd am eiriad cliriach i leihau’r gorgyffwrdd.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad o bwyntiau penodol o fanylder, gan gynnwys disgwyliadau mewn perthynas â dirprwyo o fewn strwythur pwyllgorau corff llywodraethu a hyd aelodaeth o gyrff llywodraethu.

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom nodi’n gliriach nad ydym yn disgwyl yr un strwythurau llywodraethu ym mhob darparwr ac rydym yn nodi y bydd gan ddarparwyr wahanol lefelau o gymhlethdod (gan gynnwys maint, natur y busnes a ffurf gyfreithiol).
- Adolygwyd yr amod hwn ochr yn ochr â’r amod Cynaliadwyedd Ariannol i ail-gadarnhau nad oes unrhyw ddyblygu rhwng y ddau. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd wedi’i nodi rhwng yr amodau, teimlid y byddai dileu hyn yn lleihau natur ‘unigol’ yr amodau, yn enwedig o ystyried y rôl wahanol sydd gan y corff gweithredol a’r corff llywodraethu. Tynnwyd rhywfaint o’r dyblygu rhwng yr amod a’r canllawiau ategol. Bydd Medr yn cydlynu’n fewnol i sicrhau nad oes dyblygu o ran ceisiadau
- Gwnaethom ddiwygio pwyntiau o fanylder yn seiliedig ar adborth, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â dirprwyo ym mhwyllgorau cyrff llywodraethu a disgwyliadau mewn perthynas â hyd aelodaeth o gyrff llywodraethu.

## Ansawdd a Gwella'n Barhaus (gan gynnwys y Fframwaith Ansawdd)

**Trosolwg o'r ymatebion**

Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch y sail ar gyfer y diffiniad o ansawdd da a sut y mae'r gofynion sylfaenol ar gyfer cydymffurfio'n perthyn i'r disgwyliadau ehangach ar gyfer gwella'n barhaus.
- Amlygodd rhai ymatebwyr yr angen i'r amod gydnabod bod darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn systemau mewn ysgolion, gan olygu y byddai angen i ddisgwyliadau fod yn berthnasol mewn modd gwahanol yn y cyd-destunau hynny.
- Roedd yr adborth yn codi pryderon bod risg y byddai'r geiriad blaenorol yn dyblygu prosesau sicrhau ansawdd ac arolygu presennol a gyflawnir gan Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), a nododd ymatebwyr mor bwysig yw ailddefnyddio tystiolaeth bresennol lle bynnag y bo'n bosibl.
- Gofynnodd ymatebwyr am eglurder hefyd ynghylch rôl ymgysylltu â dysgwyr, ynghylch sut y dylid trin darpariaeth a ddilysir sy'n cael ei chyflwyno gan ddarparwyr nas rheoleiddir gan Medr, ac ynghylch sut y mae'r amod yn alinio â fframweithiau statudol ehangach, gan gynnwys deddfwriaeth y Gymraeg a gofynion y Swyddfa Gartref mewn perthynas â goruchwyliaeth addysgol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod risg y byddai'r adran ynghylch y lefelau isaf o gydymffurfedd mewn drafftiau cynharach yn troi'r Fframwaith Ansawdd yn ofyniad gorfodol yn hytrach na deunydd cynghori.

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom loywi'r sail ar gyfer ein diffiniad ni o ansawdd da a sut y mae hyn yn perthyn i'r sylfaen a ddiogelir trwy'r amod.
- Gwnaethom nodi'n gliriach fod yr amod yn berthnasol yn wahanol i ddarpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol, gan gydnabod bod hon yn cael ei chyflwyno gan ysgolion yn hytrach nag awdurdodau lleol.
- Mewn ymateb i bryderon bod y gofynion o ran y lefelau isaf o gydymffurfedd â'r amod Ansawdd a Gwella'n Barhaus i bob pwrpas yn golygu bod y Fframwaith Ansawdd yn dod yn ofyniad, yn hytrach na chyngor ac arweiniad, rydym wedi dileu'r adran ar y lefel ofynnol o gydymffurfedd.
- Gwnaethom egluro cyfeiriadau at ddarpariaeth Gymraeg i gadarnhau bod hyn yn cynnwys darpariaeth ddwyieithog, ac ychwanegu Deddf y

Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 at y rhestr o fframweithiau sy'n berthnasol i addysg drydyddol.

- Gwnaethom gadarnhau bod darpariaeth a gyflwynir gan ddarparwyr nas rheoleiddir gan Medr yn ddarostyngedig i amod cofrestru ar wahân, ac nid Adran 51 o'r Ddeddf.
- Gwnaethom egluro bod rôl y corff llywodraethu'n ymwneud â goruchwylio ansawdd a gwella'n barhaus yn effeithiol, yn hytrach nag ymwneud â materion gweithredol.
- I leihau baich, gwnaethom gryfhau cyfeiriadau at rolau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch(QAA) a chadarnhau ein bwriad i ddefnyddio tystiolaeth bresennol yn llawn. Gwnaethom gadarnhau hefyd y byddwn yn rhannu data a dadansoddiadau perthnasol gydag Estyn a Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), gan ategu aliniad a lleihau dyblygu i'r eithaf.
- Ychwanegom ni wybodaeth am oruchwyliaeth addysgol i adlewyrchu adborth gan y Swyddfa Gartref a sicrhau bod dull Medr yn cyd-fynd â'u gofynion hwy.

## Lles Staff a Dysgwyr

**Trosolwg o'r ymatebion**

Roedd 62% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.
Roedd 44% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.
Roedd 41% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Cwestiynodd rhai ymatebwyr o blith darparwyr a oedd y sail statudol yn llwyr ategu'r gofynion a oedd wedi'u nodi yn yr amod a'i fanylion atodol, yn enwedig mewn perthynas â lles staff.
- Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch cymesuredd, gan amlygu y byddai ei gwneud yn ofynnol i baratoi cynllun gweithredu blynyddol ar gyfer lles yn gallu creu baich gweinyddol diangen.
- Roedd adborth yn dynodi bod angen esboniad cliriach ar gyfer y llinell amser a'r disgwyliadau i ddarparwyr lle'r oedd monitro cydymffurfedd yn y cwestiwn, gyda darparwyr yn ceisio mwy o eglurder ynghylch sut a phryd y byddai gofynion yn berthnasol yn ymarferol.
- Amlygodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod templedi a gofynion yn cael eu datblygu'n gydweithredol gyda'r sector i ategu cymesuredd a gweithredu ymarferol.
- Roedd ar rai ymatebwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn cynrychioli neu'n eirioli ar ran dysgwyr a staff, eisiau i Medr gryfhau'r gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr a oedd wedi'u nodi yn yr amod.
- Galwodd rhai ymatebwyr ar Medr i gryfhau'r gofynion ar ddarparwyr mewn perthynas â thrais (gan gynnwys trais rhywiol), camymddwyn a chymorth iechyd meddwl, tra bod eraill wedi pwysleisio'r angen i Medr

| |
|---|
| barhau i fod yn hyblyg i wahanol gyd-destunau, meintiau, adnoddau, carfannau o ddysgwyr, a chapasiti ar draws y sector. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Gwnaethom addasu'r gofyniad ar gyfer cynllun gweithredu ar gyfer lles fel bod rhaid i ddarparwyr ei gyflwyno bob dwy flynedd bellach, gan leihau baich diangen a chadw mesurau diogelu priodol.<br>• Gwnaethom ymrwymo i ddatblygu templed y cynllun gweithredu ar gyfer lles gyda'r sector i sicrhau cymesuredd, eglurder a defnyddiadwyedd.<br>• Gwnaethom ddiweddaru'r manylion atodol i gynnwys tabl mwy eglur yn nodi'r llinell amser a'r disgwyliadau i ddarparwyr lle mae monitro cydymffurfedd yn y cwestiwn, gan ymateb yn uniongyrchol i adborth bod angen i ddarparwyr gael mwy o eglurder yn y maes hwn.<br>• Gwnaethom geisio cyngor cyfreithiol i wirio a yw'r amod a'r manylion atodol yn rhoi adlewyrchiad cywir o ddyletswyddau statudol Medr. Roedd y cyngor yn ategu ein barn ni bod yr amod yn ffordd resymol a chymesur o gyflawni'r dyletswyddau hyn.<br>• Byddwn yn cydweithio â'r sector trydyddol i ddatblygu fframwaith cyffredin o gymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.<br>• Mae Medr yn asesu cyfleoedd ar draws ein rhaglenni gwaith ehangach i gryfhau ein dull o ymdrin â'r pryderon a godwyd ynghylch trais rhywiol a chamymddwyn. |

## Amod Y Gymraeg

| |
|---|
| **Trosolwg o'r ymatebion**<br><br>Roedd 69% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.<br>Roedd 61% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.<br>Roedd 47% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch sail statudol Amod y Gymraeg ac a oedd y gofynion a osodwyd ar ddarparwyr yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau Medr mewn perthynas â hybu addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg.<br>• Roedd adborth yn pwysleisio bod darparwyr yn dechrau o linellau sylfaen gwahanol iawn ac y dylid addasu maint y disgwyliadau yn ôl y cyd-destun, gan gynnwys proffiliau iaith lleol, cymysgedd o bynciau, modelau darparu, maint a chapasiti o ran y gweithlu.<br>• Amlygodd darparwyr dysgu seiliedig ar waith ac eraill yr angen am gyd-destunoli wedi'i deilwra i sicrhau bod yr amod yn cael ei gymhwyso'n gymesur ar draws y sector trydyddol amrywiol.<br>• Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd alinio â Safonau'r Gymraeg sy'n bodoli eisoes a gofyn i Medr osgoi dyblygu gofynion data a monitro. |

- Roedd cefnogaeth eang i fwriad yr amod, ond pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am eglurder ynghylch disgwyliadau, cymesuredd ac aliniad â fframweithiau statudol ehangach.
- Galwodd rhai ymatebwyr ar Medr i gryfhau'r gofynion ar ddarparwyr mewn perthynas â meithrin capasiti'r gweithlu i ymateb i'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Chymraeg fel pwnc.

**Ein hymateb ni**

- Ceisiom ni gyngor cyfreithiol i archwilio a yw'r amod yn rhoi adlewyrchiad cywir o ddyletswyddau statudol Medr mewn perthynas â hybu addysg, ymchwil ac arloesi cyfrwng Cymraeg. Roedd y cyngor yn cefnogi ein barn ni bod yr amod yn ffordd resymol a chymesur o gyflawni'r dyletswyddau hyn.
- Gwnaethom ni ddiwygio'r amod i gydnabod yn fwy datganedig bod angen addasu maint y disgwyliadau yn ôl cyd-destun darparwyr, gan gydnabod amrywiaeth y mannau cychwyn ar draws y sector.
- Gwnaethom ni ddiwygio'r amod i gynnwys pwynt adolygu diffiniedig o bum mlynedd i ddarparwyr werthuso eu Strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Rydym yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno rywfaint o faich ychwanegol. Fodd bynnag, amlygodd adborth o'r ymgynghoriad a thrafodaethau gyda Chomisiynydd y Gymraeg y gallai darparwyr, heb bwynt adolygu diffiniedig, ddehongli "gwerthuso" yn anghyson ac efallai na fyddant yn ddigon ystwyth i ymateb wrth i'r Cynllun Cenedlaethol ddatblygu dros amser. Felly mae pennu cyfnod eglur yn darparu disgwyliad sylfaenol sy'n gyson ar draws y sector, gan ddal i beidio â rhagnodi, a hynny'n fwriadol, ar ba ffurf y dylid gwerthuso ac adrodd.
- Byddwn yn cyhoeddi dogfennau briffio wedi'u teilwra ar gyfer pob rhan o'r sector i gyd-fynd â'r amod. Ni fydd y deunyddiau hyn yn gyfystyr â chanllawiau rheoleiddio ond yn hytrach byddant yn darparu enghreifftiau wedi'u cyd-destunoli ac yn esblygu dros amser wrth i arfer pellach ddod i'r amlwg.
- Gwnaethom gryfhau aliniad â Safonau'r Gymraeg a chydnabod y data sydd eisoes yn cael ei fonitro gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i osgoi dyblygu a sicrhau bod gofynion monitro'n gymesur ac yn ymarferol.
- Gwnaethom fireinio'r geiriad i adlewyrchu ein dull o fonitro mewn modd mwy datganedig ac i ategu eglurder, cymesuredd a gweithredu effeithiol.
- Rydym yn cytuno bod uwchsgilio a chryfhau'r gweithlu dros amser yn hanfodol a bod gan ddarparwyr rôl allweddol yn hynny o beth. Fodd bynnag, ar ôl ystyried adborth gan randdeiliaid yn ofalus, gwnaethom ni'r penderfyniad i beidio â chryfhau'r geiriad gan bod hyn yn creu risg o gael ei weld i fod yn cyfarwyddo penderfyniadau sefydliadol darparwyr gan felly greu risg o danseilio ymreolaeth sefydliadol. Yn unol â'n Cynllun Strategol, byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr a phartneriaid i ddeall sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg drydyddol yn well, gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff Cymraeg, a hybu dysgu

proffesiynol fel bod rhagor o staff yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel pwnc.

## Diogelu Dysgwyr

**Trosolwg o'r ymatebion**

Roedd 64% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.
Roedd 64% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.
Roedd 33% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Roedd ymatebwyr yn pryderu a fyddai'r amod yn caniatáu digon o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd mewn sefyllfaoedd argyfyngus lle gallai fod angen cynhyrchu cynlluniau diogelu dysgwyr yn gyflym.
- Roedd gwahaniaethau barn ar draws rhannau o'r sector trydyddol ynglŷn â'r cwestiwn a oedd y trefniadau arfaethedig yn gymesur ac yn ymarferol i wahanol fathau o ddarparwyr.
- Gofynnodd ymatebwyr am ddisgwyliadau mwy eglur ynghylch sut y dylid cynnwys dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr wrth ddatblygu cynlluniau diogelu dysgwyr.
- Roedd rhywfaint o'r adborth yn awgrymu bod angen aliniad cryfach rhwng yr amod a phrosesau llywodraethu a pharhad busnes darparwyr.

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom roi mwy o bwyslais ar yr angen i gynlluniau diogelu dysgwyr gael eu datblygu mewn partneriaeth gyda dysgwyr a/neu eu cynrychiolwyr.
- Gwnaethom egluro y gall fod angen cynhyrchu cynlluniau, ac y gall Medr ddarparu adborth, gyda llai o rybudd lle mae amgylchiadau'n mynnu hynny, gan sicrhau bod yr amod yn ategu ymatebolrwydd mewn sefyllfaoedd argyfyngus.
- Gwnaethom nodi'n glir y dylai'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y canllawiau gael eu hymgorffori ym mhrosesau perthnasol darparwyr ar gyfer cynllunio parhad busnes a gwneud penderfyniadau, gan atgyfnerthu aliniad â phrosesau llywodraethu presennol.

## Ymgysylltu â Dysgwyr (Gan Gynnwys y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr)

**Trosolwg o'r ymatebion**

Roedd 65% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.
Roedd 34% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.
Roedd 28% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol.
Roedd 73% yn cytuno bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn adlewyrchu

| |
|---|
| ehanger y sector trydyddol a'i gyd-destunau amrywiol.<br>Roedd 83% yn cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn mynd i'r afael â'r agweddau allweddol ar ymgysylltu â dysgwyr.<br>Roedd 55% yn anghytuno bod y dull monitro arfaethedig yn eglur a chymesur.<br>Roedd 48% yn teimlo y gallai darparwyr ddangos eu bod yn ateb y gofynion heb i hynny greu baich gormodol. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref i gysyniad y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a phwysigrwydd cynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Roedd pryderon a chwestiynau ymatebwyr yn ymwneud yn bennaf â sut y byddai cydymffurfedd yn cael ei fonitro a pha dystiolaeth fyddai'n ofynnol, yn hytrach na chynnwys y Cod ei hun.<br>• Er bod egwyddorion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn iawn at ei gilydd, dywedodd ymatebwyr fod angen cyd-destunoli ar draws gwahanol rannau o'r sector.<br>• Roedd ymatebion yn awgrymu bod yr egwyddorion yn rhy hyblyg ac agored i ddehongliad i weithredu fel gofynion rheoleiddio, gan arwain at ddiffyg eglurder ynghylch gofynion monitro a thystiolaeth.<br>• Roedd adborth yn nodi'r angen am ddisgwyliadau mwy eglur ynghylch y mathau o benderfyniadau y dylid ennyn ymgysylltiad dysgwyr â hwy, ac am enghreifftiau mwy ymarferol i ategu gweithredu cyson.<br>• Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod diffyg eglurder yn y gofynion o ran tystiolaeth a bod risg y gallai'r gofynion hynny greu baich gweinyddol ychwanegol.<br>• Roedd pryderon nad oedd y dull monitro'n ddigon eglur na chymesur, a bod angen mwy o eglurhad ynghylch sut y byddai'r Cod yn cael ei gymhwyso ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr. Cafodd hyn ei bwysleisio'n arbennig gan sefydliadau llai, megis darparwyr prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Byddwn yn cyhoeddi dogfennau briffio wedi'u teilwra ar gyfer pob rhan o'r sector i gyd-fynd â'r Cod, gan adlewyrchu adborth bod ar ddarparwyr angen enghreifftiau wedi'u cyd-destunoli a chanllawiau mwy eglur ar weithredu.<br>• Gwnaethom ddiwygio'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr i ychwanegu gofyniad rheoleiddio i bob darparwr ddatblygu, cyhoeddi ac adolygu datganiad o'u hymrwymiad i ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu mewn modd sy'n cael effaith fawr, a hwnnw'n cael ei gynhyrchu gyda dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr lle maent yn bodoli. Mae hyn yn newid o'r sefyllfa flaenorol, lle'r oedd yr egwyddorion eu hunain yn gweithredu fel y gofyniad rheoleiddio. Yn lle hynny, mae'r gofyniad diwygiedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr weithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r egwyddorion hyn, heb wneud yr egwyddorion yn rhwymedigaeth reoleiddiol. |

- Gwnaethom eglurhau bod rhaid i ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth o gyhoeddi yn y flwyddyn academaidd lawn gyntaf y mae'r Cod yn berthnasol iddi ac yna, mewn blynyddoedd diweddarach, bydd rhaid darparu tystiolaeth o effaith trwy adolygu a gwerthuso'u hymrwymiad a'u harfer ymgysylltu â dysgwyr.

## Cyfle Cyfartal

**Trosolwg o'r ymatebion**

Roedd 65% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.
Roedd 48% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.
Roedd 37% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Dywedodd yr ymatebwyr fod angen mwy o eglurder yn yr amod a'r manylion atodol, yn enwedig o ran gwahaniaethu rhwng yr hyn y mae'n rhaid i ddarparwyr ei wneud ac egwyddorion ehangach cymesuredd.
- Roedd adborth yn amlygu meysydd lle'r oedd y geiriad yn amwys, yn enwedig yn y tablau gweithredu, ac yn nodi'r angen i gyfeirio'n fwy eglur at rôl benodol Medr.
- Gofynnodd ymatebwyr am ragor o gymorth ar gyfer gweithredu sy'n sensitif i'r cyd-destun ar draws gwahanol rannau o'r sector trydyddol, gan nodi amrywiad eang ym maint darparwyr, eu cenhadaeth a phroffil dysgwyr.
  Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai disgwyliadau mewn perthynas â chyfranogi mewn ymchwil gael eu targedu'n fwy priodol.
- Roedd neges gref y dylai'r dull ganolbwyntio ar ddeilliannau mesuradwy dros amser, gan osgoi baich gweinyddol diangen.
- Pwysleisiodd ymatebwyr hefyd y dylai darparwyr ystyried anghydraddoldebau ar draws cylch oes dysgwyr a sicrhau nad yw cymorth wedi'i dargedu sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei wanhau.

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom egluro'r gwahaniaeth rhwng gofynion gorfodol a chymesuredd yn ymarferol a dileu geiriad amwys yn y tablau gweithredu.
- Gwnaethom wella'r modd y cyfeirir at rôl Medr ac ymrwymo i gyhoeddi cyngor ychwanegol o 2026/27 i roi cymorth ar gyfer gweithredu sy'n sensitif i'r cyd-destun ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr.
- Gwnaethom symleiddio'r disgwyliadau mewn perthynas â chyfranogi mewn ymchwil fel eu bod dim ond yn berthnasol i ddarparwyr sy'n cynnig darpariaeth Lefel 8.
- Gwnaethom gyflwyno cylch pedair blynedd i ategu ffocws cryfach ar ddeilliannau mesuradwy, sy'n alinio â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

| |
|---|
| (lle y bo'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a sicrhau digon o amser ar gyfer cynnydd ystyrlon.<br>• Eglurom ni fod rhaid i ddarparwyr adnabod dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu cyd-destun eu hunain ac ystyried rhwystrau ar draws cylch oes dysgwyr, gan gynnal a chryfhau'r cymorth presennol i grwpiau difreintiedig.<br>• Byddwn yn cyhoeddi dogfennau briffio wedi'u teilwra i gyd-fynd â'r amod. Ni fydd y deunyddiau hyn yn gyfystyr â chanllawiau rheoleiddio ond byddant yn darparu enghreifftiau wedi'u cyd-destunoli ac yn esblygu dros amser wrth i arfer pellach ddod i'r amlwg. |

### Cwynion (Gan gynnwys cwynion fel mecanwaith monitro)

| |
|---|
| **Trosolwg o'r ymatebion**<br><br>Roedd 46% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.<br>Roedd 86% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.<br>Roedd 79% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Roedd sylwadau ymatebwyr yn canolbwyntio ar geisiadau am eglurder ynghylch rôl a chwmpas cyfrifoldebau Medr mewn perthynas â chwynion gan ddysgwyr, yn hytrach na'r amod ei hun.<br>• Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai'r geiriad awgrymu y byddai Medr yn ymyrryd mewn cwynion unigol, pan mai darparwyr sy'n dal i fod yn gyfrifol am ymdrin â materion sy'n ymwneud â dysgwyr unigol trwy eu gweithdrefnau eu hunain.<br>• Roedd cwestiynau ynghylch sut y byddai cwynion a data cysylltiedig yn cael eu defnyddio yn null Medr o fonitro, a pha un a allai hyn greu ansicrwydd neu uwchgyfeirio diangen.<br>• Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am dryloywder o ran sut y mae Medr yn ystyried gwybodaeth sy'n deillio o gwynion a sut y mae hyn yn cysylltu ag adnabod materion systemig neu ddiffyg cydymffurfio posibl.<br>• Gofynnodd ymatebwyr am eglurder ynghylch y term a chwmpas 'cyn-ddysgwyr' fel a nodwyd yn yr amod. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Gwnaethom ddiwygio ein heglurhad ynghylch sut y bydd cwynion a data cysylltiedig yn cael eu defnyddio yn ein gweithgarwch monitro ar draws y fframwaith rheoleiddio.<br>• Eglurom ni fod ein ffocws ar adnabod materion systemig neu thematig a allai ddynodi risgiau neu ddiffyg cydymffurfio posibl â'r amodau cofrestru neu gyllid.<br>• Gwnaethom gadarnhau, lle'r ydym yn cael gohebiaeth mewn perthynas ag achos dysgwr unigol, y byddwn yn cyfeirio'r dysgwr at weithdrefnau cwynion y darparwr ei hun, ac y byddwn ni ond yn ystyried yr |

| |
|---|
| wybodaeth lle mae'n cyfrannu at batrymau ehangach neu'n ymwneud yn uniongyrchol â'n dyletswyddau statudol a rheoleiddiol ni.<br>• Rydym wedi cynnwys manylion pellach ynghylch sut y dylai darparwyr ddiffinio ac ystyried sut y mae eu gweithdrefnau cwynion yn berthnasol i gyn-ddysgwyr, gan gymryd canllawiau o Fframwaith Arferion Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. |

## Sylw i Gyngor a Chanllawiau

| |
|---|
| **Trosolwg o'r ymatebion**<br><br>Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder, cymesuredd a thryloywder o ran sut y dylai'r ddyletswydd "rhoi sylw" statudol weithredu yn ymarferol. Roedd adborth yn nodi nad oedd y geiriad cynharach yn gwahaniaethu ddigon rhwng canllawiau a gyhoeddir yn ffurfiol dan y Ddeddf – lle mae'r ddyletswydd statudol yn berthnasol – a deunyddiau ehangach Medr sy'n cynghori neu'n amlygu arferion da.<br>• Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai'r geiriad arwain at faich gweinyddol diangen, yn enwedig os oedd darparwyr yn teimlo bod disgwyl iddynt ddogfennu neu gyfiawnhau'n rheolaidd sut yr oeddent wedi ystyried pob math o ganllawiau. Roedd cwestiynau hefyd ynghylch sut y dylai'r disgwyliadau diwygiedig gael eu hadlewyrchu mewn strwythurau llywodraethu mewnol.<br>• Roedd ar ymatebwyr eisiau mwy o eglurder ynghylch pa lefel o sicrwydd yr oedd Medr yn ei disgwyl mewn perthynas â phrosesau penderfynu darparwyr, ac roedd arnynt eisiau sicrwydd y byddai'r ddyletswydd yn cael ei chymhwyso'n gymesur ac mewn modd seiliedig ar risg. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Eglurom ni'r gofyniad craidd fel bod darparwyr yn gallu deall yn haws beth yw cwmpas bwriadedig y ddyletswydd "rhoi sylw" statudol. Mae'r geiriad diwygiedig bellach yn gwahaniaethu'n eglur rhwng canllawiau a gyhoeddwyd yn ffurfiol dan y Ddeddf a deunyddiau ehangach Medr i gynghori neu amlygu arferion da.<br>• Eglurom ni y dylai darparwyr allu egluro eu sail resymegol a'u proses benderfynu pan ofynnir iddynt, ond nad ydym yn disgwyl adroddiadau na chyfiawnhad rheolaidd. Mae hyn yn ategu goruchwyliaeth gymesur a seiliedig ar risg. |

| |
|---|
| • Gwnaethom fireinio'r geiriad i sicrhau bod yr amod yn ategu llywodraethu mewnol effeithiol heb osod baich gweinyddol diangen ac i sicrhau aliniad gwell â dull rheoleiddiol ehangach Medr. |

## Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad

| **Trosolwg o'r ymatebion** |
|---|
| Roedd 74% yn teimlo y gallai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson.<br>Roedd 72% o'r farn bod y gofynion yn gymesur.<br>Roedd 46% yn teimlo bod yr amod yn nodi'n glir yr hyn a oedd yn ofynnol. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr am alinio'r amod yn agosach ag Adran 31 o'r Deddf, am fod y geiriad cynharach fel pe bai'n niwlio'r gwahaniaeth rhwng dyletswydd reoleiddiol Medr a'r pwerau arolygu ar wahân yn y Ddeddf.<br>• Gofynnodd rhai ymatebwyr am ffiniau mwy eglur o ran cwmpas "gwybodaeth, cymorth a mynediad", gan gynnwys pryd ellir gwneud ceisiadau, yr hyn y gallant ei gwmpasu ac ar ba sail y dylai darparwyr ymateb.<br>• Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd cymesuredd, yn enwedig mewn perthynas â'r baich posibl sy'n gysylltiedig ag ymateb i geisiadau. Gofynnon nhw am fwy o sicrwydd y byddai Medr yn dibynnu ar dystiolaeth bresennol lle bynnag y bo'n bosibl.<br>• Roedd ceisiadau hefyd am ddisgwyliadau mwy eglur mewn perthynas â fformat, sicrwydd ynghylch gwybodaeth, a chyfrinachedd, gan gynnwys sut y byddai gwybodaeth a ddarperir dan yr amod hwn yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro a sicrwydd. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Gwnaethom fireinio'r amod fel ei fod dim ond yn adlewyrchu'r ddyletswydd a nodir yn Adran 31 o'r Ddeddf. Roedd hyn yn cynnwys dileu'r geiriad a oedd yn awgrymu neu'n atgynhyrchu pwerau arolygu, gan sicrhau bod yr amod ond yn berthnasol i'r ddyletswydd reoleiddiol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Rhan 2 Medr.<br>• Gwnaethom egluro bod rhaid i geisiadau am wybodaeth, cymorth neu fynediad fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn rhesymol. Gwnaethom hefyd bwysleisio y byddwn yn defnyddio tystiolaeth bresennol lle bynnag y bo'n ymarferol, gan gynnwys deunyddiau a gyflwynir eisoes i gyrff statudol eraill neu gasgliadau cenedlaethol.<br>• Gwnaethom gryfhau'r geiriad mewn perthynas â fformat, sicrwydd a chyfrinachedd. Mae'r geiriad diwygiedig yn eglurhau'r hyn y gall darparwyr ei ddisgwyl ac yn cynnal hyblygrwydd i adlewyrchu gwahaniaethau yn nhrefniadau llywodraethu, systemau a maint darparwyr. |

| |
|---|
| • Gwnaethom symleiddio’r elfennau monitro ac adolygu i sicrhau aliniad â dull monitro cyhoeddedig Medr a dileu deunydd nad oedd yn perthyn i’r ddyletswydd statudol. |

## Dilysu

| |
|---|
| **Trosolwg o’r ymatebion**<br><br>Roedd 68% yn teimlo y gallai’r amod gael ei gymhwyso’n gyson.<br>Roedd 76% o’r farn bod y gofynion yn gymesur.<br>Roedd 43% yn teimlo bod yr amod yn nodi’n glir yr hyn a oedd yn ofynnol.<br>Roedd 75% yn teimlo y gellid ymestyn yr amod Trefniadau Dilysu mewn modd defnyddiol i gynnig cyngor neu ganllawiau ar gyfer partneriaethau trydyddol eraill, gan gynnwys trefniadau is-gontractio. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr am wahaniaethu’n fwy eglur rhwng trefniadau dilysu a breinio, am fod drafftio cynharach yn niwlio’r ddwy ffurf o ddarpariaeth.<br>• Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y geiriad blaenorol yn cynnwys manylder gweithredol rhagnodol nad oedd yn briodol ar gyfer dilysu ac a oedd yn debyg i oruchwyliaeth a geir fe rhan o drefniadau breinio.<br>• Codwyd pryderon ynghylch dyblygu a baich diangen, yn enwedig lle’r oedd gofynion o ran tystiolaeth yn mynd y tu hwnt i’r hyn a ddelir gan ddarparwyr fel arfer ar gyfer gweithgareddau dilysu.<br>• Pwysleisiodd darparwyr y dylai monitro fod yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac y dylai alinio â systemau llywodraethu a sicrhau ansawdd presennol. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Gwnaethom fireinio’r amod i alinio’n agos â’r diffiniad statudol o drefniadau dilysu a dileu’r gorgyffwrdd â threfniadau breinio.<br>• Gwnaethom ddileu gofynion gweithredol rhagnodol a sicrhau bod yr amod yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau craidd, gan gynnwys safonau academaidd, cytundebau ysgrifenedig a sicrhau bod darpariaeth a ddilysir yn eistedd o fewn prosesau sicrhau ansawdd presennol.<br>• Gwnaethom symleiddio monitro fel ei fod yn seiliedig yn bennaf ar hunanddatganiad blynyddol, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio dim ond lle y bo’n gymesur ac yn seiliedig ar risg.<br>• Eglurom ni fod rhaid i ddarparwyr barhau i’n hysbysu am drefniadau dilysu sy’n newydd neu’n dod i ben ac unrhyw risgiau perthnasol cysylltiedig, gan sicrhau goruchwyliaeth effeithiol heb faich diangen.<br>• Byddwn yn parhau i adlewyrchu ac adolygu budd canllawiau ehangach ynghylch trefniadau is-gontractio ar draws y sector trydyddol ehangach. |

## Statws Elusennol

| Trosolwg o'r ymatebion |
|---|
| Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
| **Prif themâu yn yr adborth** |
| • Roedd ymatebwyr yn pryderu bod y drafftio cynharach yn ymestyn y tu hwnt i'w gwmpas bwriadedig, yn enwedig mewn perthynas â sefydliadau'n darparu cyrsiau cymhwysol ar ran darparwyr.<br>• Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd elfennau o'r gofyniad yn dyblygu rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach mewn perthynas â statws elusennol neu'n gorgyffwrdd â hwy.<br>• Roedd ymholiadau ynghylch diben a chymesuredd y gofyniad i sefydliadau gyfleu eu statws elusennol yn gyhoeddus. |
| **Ein hymateb ni** |
| • Gwnaethom ddileu'r gofyniad i sefydliadau gadarnhau bod unrhyw sefydliad sy'n darparu cyrsiau cymhwysol ar eu rhan hefyd yn elusen, gan sicrhau bod yr amod yn aros o fewn ei gwmpas priodol.<br>• Gwnaethom ddileu'r gofyniad i sefydliadau ddangos sut y maent yn cyfleu eu statws elusennol yn gyhoeddus, gan osgoi dyblygu â dyletswyddau cyfreithiol a llywodraethu presennol.<br>• Gwnaethom fireinio'r geiriad i sicrhau bod yr amod yn dal i fod yn gymesur, â ffocws pendant ac wedi'i alinio â'i ddiben rheoleiddiol bwriadedig. |

## Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr

| Trosolwg o'r ymatebion |
|---|
| Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
| **Prif themâu yn yr adborth** |
| • Gofynnodd ymatebwyr i ni sicrhau bod yr amod yn alinio'n agosach â'r geiriad statudol a nodir yn Rheoliadau Cofrestru a Dadgofrestru 2024. Roedd rhai'n teimlo bod y geiriad cynharach yn awgrymu disgwyliadau ychwanegol nad oeddent yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth. |

| |
|---|
| • Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch y cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg yn y gofyniad sy'n ymwneud â hygyrchedd, gan nodi eu bod yn ddarostyngedig i'r gofynion hynny trwy gyrff rheoleiddio eraill.<br>• Roedd adborth yn amlygu y dylai'r amod barhau i fod â ffocws ar eglurder, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr, ac y dylai unrhyw ddisgwyliadau cysylltiedig osgoi dyblygu â dyletswyddau diogelu defnyddwyr ehangach. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Gwnaethom ddiweddaru'r amod i alinio'n uniongyrchol â'r geiriad statudol trwy ddisodli'r drafftio cynharach â gofyniad i Medr fod "wedi ei fodloni o ran yr wybodaeth y mae'r darparwr addysg drydyddol yn ei darparu i ddarpar fyfyrwyr", fel y nodir yn Rheoliadau Cofrestru a Dadgofrestru 2024.<br>• Gwnaethom ddileu'r cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg o'r gofyniad sy'n ymwneud â hygyrchedd i osgoi gorgyrraedd rheoleiddiol.<br>• Gwnaethom fireinio'r amod fel ei fod yn canolbwyntio'n glir ar eglurder, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr, heb gyflwyno disgwyliadau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r gofyniad statudol. |

## Terfynau Ffioedd

| **Trosolwg o'r ymatebion** |
|---|
| Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder, cymesuredd a chysondeb yn y gofynion sy'n ymwneud â Therfynau Ffioedd<br>• Pryder ynghylch baich gweinyddol, yn enwedig y disgwyliad i restru pob cwrs cymhwysol yn unigol<br>• Ceisiadau am amseriadau gweithredu mwy eglur i ddarparu rhagweladwyedd ar gyfer cynllunio.<br>• Barn gymysg p'un a ddylai disgwyliadau sy'n ymwneud â chynrychioli dysgwyr berthyn i'r Amod Terfynau Ffioedd. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Rydym wedi eglurhau amseriad gweithredu: Mae Datganiadau Terfyn Ffioedd yn ofynnol ar gyfer cofrestru o 2026/27 ac maent yn gymwys yn weithredol o fis Awst 2027.<br>• Gwnaethom gadarnhau y gall darparwyr grwpio cyrsiau cymhwysol yn ôl y math o gymhwyster yn hytrach na rhestru pob un yn unigol, gan leihau baich gweinyddol a chynnal cydymffurfedd statudol. |

- Gwnaethom alinio terminoleg ar draws dogfennau a chadarnhau mai dim ond i gyrsiau cymhwysol o fewn y gyfundrefn terfynau ffioedd statudol y mae Datganiadau Terfyn Ffioedd yn berthnasol.
- Gwnaethom gadw'r gofyniad sy'n ymwneud â chynrychioli dysgwyr wrth bennu ffioedd i sicrhau bod llais y dysgwr yn dal i fod yn rhan o'r broses pennu ffioedd.

## Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth a Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru

**Trosolwg o'r ymatebion**

Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Gofynnodd ymatebwyr am aliniad mwy eglur rhwng yr amod a'r diffiniad statudol o ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru dan Adran 144 o'r Ddeddf.
- Roedd adborth yn nodi nad oedd y geiriad cynharach yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng y gofyniad hwn ac amodau eraill, yn enwedig yr amod Statws Elusennol dan Reoliad 10(a).
- Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch eglurder y term "y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru", ac fe ofynnwyd am arweiniad ynghylch y mathau o weithgareddau a dangosyddion sy'n berthnasol i'r asesiad hwn.
- Gofynnodd darparwyr hefyd am esboniad mwy eglur o sut y dylid yn hysbysu am newidiadau sy'n effeithio ar statws darparwr a sut y byddai'r hysbysiadau hyn yn rhyngweithio â rhannau eraill o'r fframwaith rheoleiddio.

**Ein hymateb ni**

- Rydym wedi rhannu'r amod hwn yn ddau amod ar wahân, i sicrhau bod hyn yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r diffiniad statudol o ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru a'r dyletswyddau hysbysu gorfodol a nodir yn Rheoliadau 10(c) ac 11(b) Rheoliadau Cofrestru a Dadgofrestru 2024.
- Gwnaethom ddileu amwysedd y geiriad cynharach. Rydym hefyd wedi pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng y gofyniad hwn a'r amod Statws Elusennol.
- Gwnaethom gynnwys dehongliad mwy eglur a mwy cadarn o'r ymadrodd statudol "y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru", gan nodi'r dangosyddion allweddol a'r mathau o weithgarwch sy'n ategu'r asesiad hwn, gan bwysleisio bod y prawf statudol yn dal i fod yn seiliedig ar sylwedd cyffredinol a chraidd disgyrchiant gweithgareddau addysg drydyddol darparwr.

- Eglurom ni'r gofynion hysbysu i sicrhau bod darparwyr yn deall pryd y mae'n rhaid adrodd am newid a sut y mae hyn yn rhyngweithio â'u rhwymedigaethau rheoleiddiol ehangach.

## Y Broses Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd

**Trosolwg o'r ymatebion**

Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A.

**Prif themâu yn yr adborth**

- Amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd disgwyliadau eglur a chymesur ynghylch amseriad a chwmpas Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd.
- Gofynnon nhw am ragor o eglurder ynghylch y mathau penodol o ddigwyddiadau y dylid hysbysu yn eu cylch a sut y mae materion diogelu'n perthyn o fewn y gofynion hysbysu.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr am esboniad mwy eglur o sut y byddai gwybodaeth a gyflwynir trwy Ddigwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd yn cael ei defnyddio ym mhrosesau monitro a sicrwydd Medr.
- Roedd cefnogaeth i sicrhau bod gofynion hysbysu'n gyson ar draws yr amodau ac yn gymesur â lefel y risg.

**Ein hymateb ni**

- Gwnaethom adfer amserlen ddiffiniedig ar gyfer hysbysu ynghylch Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd, gan ymateb i adborth nad oedd digon o eglurder ynghylch y pwynt yma mewn drafftiau cynharach.
- Gwnaethom ddiwygio'r digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd sy'n ymwneud â marwolaeth neu niwed i'w gwneud yn fwy eglur sut y mae ystyriaethau i ddiogelu'n cael eu hadlewyrchu yn yr hysbysiadau hyn.
- Eglurom ni sut y bydd Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd yn cael eu defnyddio yn y dull monitro dan bob amod perthnasol, gan sicrhau tryloywder a chysondeb.
- Cyflwynom ni ddiffiniad o "werth" mewn perthynas â'r gofyniad i'n hysbysu ynghylch cytundebau diswyddo i ategu dehongliad cyson ar draws y sector.

## Datganiad Ymyrryd

| **Trosolwg o'r Ymatebion**<br><br>Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
|---|
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Roedd ymatebwyr yn cydnabod bod llawer o elfennau o'r Datganiad Ymyrryd wedi'u rhagnodi gan y Ddeddf, gan gyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer newidiadau mawr.<br>• Gofynnodd rhai ymatebwyr am esboniad mwy eglur i ddynodi pryd y gallai Medr ymyrryd, gan fynegi pryder ynghylch gorgyrraedd rheoleiddiol posibl mewn perthynas â mân faterion.<br>• Roedd ceisiadau am fwy o dryloywder ynghylch rôl dysgwyr a chynrychiolwyr dysgwyr yn ystod y broses ymyrryd, a sut y gallai cwynion fwydo i mewn i benderfyniadau monitro ac ymyrryd ehangach.<br>• Gofynnodd ymatebwyr am eglurder hefyd ynghylch cyhoeddi Hysbysiadau, y sail gyfreithiol ar gyfer pwerau ymyrryd penodol, a sut y mae'r Datganiad yn alinio â'r dull monitro ehangach. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Eglurom ni y bydd penderfyniadau ymyrryd wastad yn dibynnu ar amgylchiadau penodol darparwr a, lle bynnag y bo'n briodol, y byddwn yn ceisio datrys materion yn anffurfiol cyn cychwyn camau gweithredu ffurfiol.<br>• Gwnaethom gadarnhau nad ydym yn disgwyl defnyddio pwerau ymyrryd mewn mân achosion o ddiffyg cydymffurfio lle mae gan ddarparwyr brosesau mewnol cadarn a lle maent yn cymryd camau rhesymol i ymdrin â phryderon.<br>• Gwnaethom ail gadarnhau bod cwynion dysgwyr yn llwybr pwysig y gellir ei ddefnyddio i adnabod diffyg cydymffurfio posibl, ond bod rhaid i'r penderfyniad i gynnwys cynrychiolwyr dysgwyr yn ystod camau ymyrryd ddibynnu ar gyd-destun pob achos.<br>• Eglurom ni sut y mae'r cam Hysbysiad Rhybuddio, cyfleoedd ar gyfer sylwadau a'r broses Adolygu Penderfyniad statudol yn gweithredu, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall y system o rwystrau a gwrthbwysau a sefydlwyd dan y Ddeddf.<br>• Gwnaethom wella'r eglurhad ynghylch pryd y gellir cyhoeddi Hysbysiadau, gan nodi y gall fod angen ailystyried cyhoeddi yn dilyn Adolygu Penderfyniad.<br>• Gwnaethom ddiweddaru testun a siartiau llif i ddarparu mwy o eglurhad ynghylch y sail statudol ar gyfer pob pŵer ymyrryd a dileu deunydd nad yw'n gysylltiedig â phwerau a nodir, gan sicrhau mwy o gywirdeb cyfreithiol a chydlyniad. |

## Dull o Fonitro

| **Trosolwg o'r ymatebion**<br><br>Ni chafodd cwestiynau caeëdig ar yr amod hwn eu cynnwys yng ngham dau o'r ymgynghoriad, am fod y maes hwn eisoes wedi bod yn destun profi meintiol yn ystod cam un. Cyflwynir canlyniadau llawn cam un yn Atodiad A. |
|---|
| **Prif themâu yn yr adborth**<br><br>• Roedd ymatebwyr yn canolbwyntio'n llai ar newid strwythurol ac yn fwy ar yr angen am eglurder, cymesuredd a datblygu ar y cyd wrth ddechrau rhoi'r system ar waith. Roeddent yn cydnabod bod y model monitro eisoes wedi cael ei ail-lunio'n sylweddol yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf, gan gynnwys gwahanu'n fwy eglur rhwng gweithgarwch sydd â ffocws ar gydymffurfedd a deialog strategol, bwrw golwg o safbwynt risg ddeuol, mwy o eglurder ynghylch digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd, ailddefnyddio tystiolaeth bresennol, aliniad â chylchoedd y sector ac ymrwymiad i weithredu graddol.<br>• Roedd adborth yn pwysleisio mai datblygu cydweithredol ddylai fod yn flaenoriaeth nawr yn hytrach nag ailddylunio pellach. Nododd ymatebwyr na fydd monitro rheolaidd yn dechrau tan fis Hydref 2027 ac amlygwyd mor bwysigrwydd fydd defnyddio'r cyfnod cyn hynny i fireinio trefniadau ymarferol, gan gynnwys templedi, diffiniadau, llifoedd data a disgwyliadau cyffredin mewn perthynas â sicrwydd.<br>• Rhybuddiodd ymatebwyr hefyd fod risg y gallai rhai newidiadau y gofynnwyd amdanynt leihau'r hyblygrwydd yr oedd ei angen ar gyfer goruchwyliaeth gymesur, sy'n sensitif i'r cyd-destun. gwnaethant nodi bod rhaid i benderfyniadau ynglŷn ag ymyrryd ddibynnu ar amgylchiadau darparwyr unigol ac y gallai sbardunau rhy rhagnodol danseilio ymreolaeth neu greu canfyddiadau am orgyrraedd rheoleiddiol. |
| **Ein hymateb ni**<br><br>• Nid ydym yn gwneud newidiadau strwythurol pellach i'r model monitro yn ystod y cam hwn, gan gydnabod y newidiadau mireinio sylweddol a wnaed yn dilyn cam un a'r angen i gynnal hyblygrwydd ar gyfer goruchwyliaeth gymesur, sy'n sensitif i'r cyd-destun.<br>• Gwnaethom ail gadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu ar y cyd trwy gydol 2026 a 2027, gan gydweithio'n agos â darparwyr, cyrff cynrychiolaidd a dysgwyr i sicrhau bod y dull yn dal i fod yn dryloyw, yn ymarferol ac wedi'i wreiddio mewn profiad personol.<br>• Gwnaethom gadarnhau na fydd monitro rheolaidd yn dechrau tan fis Hydref 2027, gan ganiatáu amser i drefniadau gweithredol manwl – gan gynnwys templedi, diffiniadau a disgwyliadau – gael eu datblygu bob yn dipyn ac ar y cyd. |

### Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

24. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn pobl ynglŷn ag effaith holl elfennau'r system reoleiddio arfaethedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer y cwestiwn pa un a fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau Llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dywedodd 53% y byddent, tra bo 44% yn teimlo y byddent yn gwneud hynny'n rhannol. Dim ond 2% oedd yn teimlo na fyddent yn cyfrannu.

25. Mae asesiad llawnach o effeithiau posibl y system reoleiddio newydd – gan gynnwys ei heffeithiau ar ddysgwyr, darparwyr, y Gymraeg, cydraddoldeb, a'r nodau llesiant – wedi cael ei gynnal i roi cymorth i ddatblygu'r fframwaith newydd. Mae hyn yn darparu dadansoddiad mwy manwl o effeithiau cadarnhaol ac andwyol tebygol ac yn egluro sut y mae adborth o'r ddau gam ymgynghori wedi siapio'r asesiad terfynol hwnnw o effaith.

### Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

26. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn pobl ynglŷn ag effaith yr holl elfennau o'r system reoleiddio arfaethedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd 39% o ymatebwyr yn teimlo bod y cynigion yn ymdrin â'r angen i leihau anghydraddoldebau mewn deilliannau sy'n codi o anfantais economaidd-gymdeithasol, tra bo 48% yn teimlo mai dim ond yn rhannol yr oeddent yn gwneud hyn a bod 14% yn teimlo nad oeddent yn gwneud hyn.

27. Ar gyfer meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu, dywedodd 44% fod y cynigion yn gwneud hynny, dywedodd 51% eu bod yn gwneud hynny'n rhannol, a dywedodd 5% nad ydynt yn gwneud hynny.

28. Yn yr un modd, roedd 47% yn cytuno bod y cynigion yn hybu cyfle cyfartal, roedd 49% yn teimlo eu bod yn gwneud hynny'n rhannol, ac nid oedd 5% yn credu bod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu. Ar gyfer dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir, roedd 51% yn cytuno bod y cynigion yn rhoi ystyriaeth briodol i hyn, roedd 42% yn teimlo'u bod yn gwneud hynny'n rhannol, ac roedd 7% yn teimlo nad ydynt yn gwneud hynny.

29. Croesawodd yr ymatebwyr y pwyslais clir ac eglur ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y system reoleiddio arfaethedig. Roeddent o'r farn bod gan y fframwaith botensial cryf i wella cyfranogiad, cryfhau tegwch a chefnogi amgylcheddau dysgu mwy cynhwysol, yn enwedig drwy amod Cyfle Cyfartal, amod Lles Staff a Dysgwyr, amod Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'r Fframwaith Ansawdd. Roedd llawer hefyd yn gwerthfawrogi mwy o welededd o ran disgwyliadau cyfartal o fewn amodau craidd a'r ffocws ar lais y dysgwr, data wedi'i ddaduno a deall anghydraddoldebau ar draws cylch oes y dysgwr

30. Nododd yr ymatebwyr hefyd sawl maes yr oedd angen eu trin yn gliriach ac yn fwy cymseur. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd disgwyliadau graddadwy i ddarparwyr arbenigol, llai o faint, sydd â ffocws ar brentisiaethau, er mwyn sicrhau nad yw'r gofynion yn dyblygu prosesau arolygu neu gomisiynu presennol nac yn creu baich

diangen. Amlygwyd yr angen i gydnabod anfantais  groestoriadol ac anfantais economaidd-gymdeithasol, defnyddio tystiolaeth dryloyw wedi'i daduno i ddeall pa grwpiau sy'n elwa, a mynd i'r afael â meysydd lle mae dyletswyddau cydraddoldeb yn aml yn methu ar lefel ymarferol - megis aflonyddu, gwahaniaethu a phrofiad bywyd dysgwyr anabl. Pwysleisiodd sawl un fod yn rhaid i'r dulliau gweithredu adlewyrchu cyd-destun gwahanol ddarparwyr, gan gynnwys darpariaeth seiliedig ar ffydd a chymuned, tra'n cynnal diogelwch cryf a chyson i ddysgwyr.

### Safonau'r Gymraeg

31. Cafodd y cwestiynau ynglŷn â'r Gymraeg eu mireinio rhwng cam un a cham dau i sicrhau aliniad mwy eglur â Safonau'r Gymraeg ar gyfer llunio polisïau a chasglu tystiolaeth fwy ystyrlon ar effeithiau posibl y system reoleiddio newydd. Roedd cwestiynau cam un yn ateb y gofynion lleiaf ond yn dibynnu ar fformat Ie/Na a oedd yn cyfyngu ar y manylder y gallai ymatebwyr ei ddarparu. Ar gyfer cam dau, cafodd y cwestiynau eu hailstrwythuro i archwilio adborth ansoddol lawnach ar effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol, a gwahodd awgrymiadau penodol ar gyfer cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru rhai andwyol.

32. Ar draws yr holl ymatebion, ceir cefnogaeth eang i gynigion Medr ar gyfer cryfhau'r Gymraeg yn y sector addysg drydyddol. Yn anad dim, cydnabuwyd bod gan y cynigion y potensial i annog darparwyr i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu yn y Gymraeg, a meithrin triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Amlygodd nifer o ymatebwyr y gallai gwreiddio'r Gymraeg yn ddyfnach fel rhan o gynllunio strategol helpu i wella amlygrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru, yn ogystal â gwella atebolrwydd a chysondeb ar draws y sector trydyddol, yn enwedig lle mae cyfleoedd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn amrywio ar hyn o bryd.

33. Ochr yn ochr â'r gefnogaeth hon, serch hynny, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at gyfyngiadau cyfredol ar gapasiti ac adnoddau, gan gynnwys cyfyngiadau o ran y gweithlu. Yn nodedig, nid oedd y set hon o bryderon yn benodol i fathau arbennig o ddarparwyr ond fe'i codwyd yn gyffredinol ar draws y sector. Pwysleisiodd ystod eang o ddarparwyr y bydd cwrdd â'r disgwyliadau rheoleiddio yn galw am fuddsoddi mewn staffio dwyieithog, adnoddau addysgu dwyieithog, offer asesu dwyieithog, gwasanaethau cyfieithu a recriwtio a datblygu staff. Heb gyllid a gweithgarwch cynllunio'r gweithlu sy'n cyfateb i hynny, mynegodd nifer o ymatebwyr y farn bod risg y gallai'r dull rheoleiddio arfaethedig greu baich gweinyddol heb sicrhau datblygiadau ystyrlon mewn dysgu cyfrwng Cymraeg. Yn y cyd-destun hwn, un o'r is-themâu cryf yw bod diffyg dybryd o ran siaradwyr Cymraeg ymhlith staff hyfforddi galwedigaethol ac arbenigwyr ADY ar hyn o bryd, na all darparwyr ymdrin ag ef heb y cymorth ariannol a sefydliadol angenrheidiol. Ar y cyfan, mynegwyd y farn ei bod hi'n hanfodol buddsoddi ar raddfa eang er mwyn i dargedau fod yn gyraeddadwy, gan arwain at dwf ieithyddol sylweddol yn hytrach na chydymffurfio arwynebol.

34. Mae'r pryderon uchod yn cysylltu â thema drawsbynciol arall ynghylch yr angen am gymesuredd a hyblygrwydd yn null Medr o hybu'r Gymraeg. Yn benodol, ceir pryder cyffredin bod safonau a disgwyliadau unffurf yn annhebygol o adlewyrchu amrywiaeth y sector trydyddol. Er enghraifft, mae darparwyr prentisiaethau'n pwysleisio natur dysgu yn yr ystyr ei fod yn cael ei arwain gan gyflogwyr a'r angen i

wahaniaethu rhwng camau gweithredu a reolir gan ddarparwyr (megis deunyddiau dwyieithog a recriwtio staff Cymraeg) a'r rhai sy'n ddibynnol ar gyflogwyr. Mae ymatebwyr eraill yn amlygu tensiwn rhwng dewis dysgwyr ac uchelgais y system: er mai'r nod yw ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae nifer o ymatebwyr yn pwysleisio nad yw pob siaradwr Cymraeg yn dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod rhaid i ddisgwyliadau rheoleiddio osgoi lleihau ymreolaeth dysgwyr yn anfwriadol. Mae rhai ymatebwyr hefyd yn rhybuddio rhag adrodd yn anhyblyg yn unol â metrigau neu dargedau a allai greu data camarweiniol, yn enwedig mewn meysydd lle mae carfannau Cymraeg yn fach. Yn hytrach, mynegwyd dewis o blaid model sy'n pwysleisio datblygu a meithrin capasiti dros orfodaeth, gyda chynnydd yn cael ei asesu o linell sylfaen darparwr ei hun yn hytrach na meincnodau ar draws y sector trydyddol.

35. Mae nifer o ymatebwyr yn amlygu'r angen am fwy o gydlyniad ac aliniad rhwng cyrff rheoleiddio â chyfrifoldeb am hybu'r Gymraeg. Gan hynny, mae nifer o ymatebwyr yn nodi'r angen i ddisgwyliadau Medr gydblethu â Safonau'r Gymraeg, rôl Comisiynydd y Gymraeg, targedau *Cymraeg 2050* y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a fframwaith Cymraeg Estyn. Dylai'r aliniad hwn gael ei adlewyrchu maes o law yng Nghynllun Cenedlaethol Medr ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Mae nifer o ymatebwyr yn rhybuddio y gallai methu â chyflawni'r aliniad hwn arwain at systemau gorgyffyrddol neu gyfochrog, gan arwain at ddyblygu diangen, dryswch, a disgwyliadau a allai fod yn groes i'w gilydd. Mae rhai ymatebwyr yn awgrymu y dylai Medr fodelu cydraddoldeb ieithyddol yn ei arferion ei hun; cafodd ansawdd cyfieithu a dogfennaeth ddwyieithog eu hamlygu fel meysydd y mae gofyn eu gwella i osgoi anfon arwyddion mai Saesneg yw'r iaith 'ddiofyn' o hyd.

36. O ran gwelliannau penodol, awgrymodd ymatebwyr y gall Medr gryfhau ei effaith ar y Gymraeg trwy wneud disgwyliadau'n fwy eglur, yn fwy cyson ac wedi'u halinio â Safonau'r Gymraeg sy'n bodoli eisoes, fel nad yw darparwyr yn cael eu tynnu i mewn i brosesau dyblyg. Mae dull cymesur, cefnogol yn hanfodol, yn enwedig i ddarparwyr bychain neu arbenigol â chapasiti dwyieithog cyfyngedig. Byddai canllawiau ymarferol, gwasanaethau cyfieithu a thempledi a rennir yn helpu i wneud disgwyliadau'n gyraeddadwy ac atal y Gymraeg rhag cael ei dehongli fel cyfyngiad gweinyddol. Byddai trefniadau mwy eglur ar gyfer monitro a chwynion yn helpu darparwyr i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr a thracio hynny hefyd. Dylai Medr sicrhau bod ei brosesau dwyieithog ei hun yn gywir ac yn gadarn, gan ddynodi parch cydradd go iawn. Mae angen hyblygrwydd ar ddarparwyr i hybu'r Gymraeg mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu cyd-destun hwy a'r galw ymhlith dysgwyr, tra byddai dull rheoleiddiol sy'n canolbwyntio ar gynnydd a deialog yn hytrach na thargedau unffurf yn ehangu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg heb greu baich diangen neu gyfyngu ar ddewis dysgwyr.

37. Ar y cyd, mae ymatebion i'r cwestiynau am Safonau'r Gymraeg yn cyfleu sector trydyddol sydd wedi'i alinio'n gryf â'r uchelgais i wella cyfleoedd yn y Gymraeg, ond sydd hefyd yn ochelgar ynghylch ymarferoldeb a chymesuredd y dull arfaethedig. Mae'r sylwadau a gyflwynwyd yn cyfeirio ar y cyd at fodel rheoleiddio sy'n taro cydbwysedd rhwng uchelgais a realaeth; cafodd cefnogi darparwyr trwy feithrin capasiti, cydweithio, disgwyliadau hyblyg ynghylch cydymffurfedd, ac aliniad â strwythurau cenedlaethol presennol eu pwysleisio'n benodol. Mae ymatebwyr yn dadlau bod dull o'r fath yn fwy tebygol o sicrhau gwelliannau cynaliadwy, go iawn

mewn perthynas â chyfleoedd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ymarferol.

## Casgliad a'r Camau Nesaf

38. Mae'r adroddiad hwn wedi crynhoi'r adborth a gafwyd ar draws y ddau gam ymgynghori ac wedi amlinellu'r newidiadau a wnaed i fireinio'r system reoleiddio o ganlyniad. Amlygodd ymatebwyr bwysigrwydd eglurder, cymesuredd a chydlyniad ar draws yr amodau, a phwysleisio'r angen am ddull monitro y gellir ei gymhwyso'n gyson gan gydnabod amrywiaeth y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Rydym wedi ymateb trwy gryfhau strwythur a geiriad yr amodau, eglurhau disgwyliadau allweddol ac ymdrin â meysydd lle'r oedd y drafftio gwreiddiol naill ai'n rhy rhagnodol neu'n rhy amwys.

39. Mae'r broses ymgynghori mewn dau gam wedi ein galluogi i brofi'r system reoleiddio, ei mireinio a'i halinio ag anghenion y sector gan sicrhau ei bod wedi'i gwreiddio'n llawn yn y dyletswyddau statudol a sefydlwyd drwy'r Ddeddf. Ar draws y ddau gam, gwnaeth ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, dull sy'n seiliedig ar risg, ac ailddefnyddio tystiolaeth bresennol i osgoi baich diangen. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd trwy'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r negeseuon hynny ac yn sicrhau bod y fframwaith yn egwyddorol ac yn ymarferol, gan ddiogelu dysgwyr a pharchu ymreolaeth sefydliadol ac amrywiad mewn modelau llywodraethu, cyd-destunau darparu a maint darparwyr.

40. Un o'r themâu cyson ar draws yr ymgyngoriadau oedd yr angen am dryloywder a deialog gynnar wrth ddechrau rhoi'r system ar waith. Er bod strwythur lefel-uchel y system reoleiddio bellach yn gyflawn, bydd cryn dipyn o'r manylder gweithredol – yn enwedig mewn perthynas â monitro, disgwyliadau o ran tystiolaeth a diffiniadau – yn datblygu dros amser. Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr, dysgwyr, cyrff cynrychiolaidd a phartneriaid i sicrhau bod y system yn cael ei deall, ei bod yn hydrin ac yn gymesur, ac i ategu hyder a dehongli cyffredin ar draws y sector.

41. Mae'r fframwaith rheoleiddio bellach yn darparu sylfaen sefydlog ar gyfer cofrestru a chyllido, ochr yn ochr ag amodau sy'n ategu ansawdd, cynaliadwyedd, llywodraethu effeithiol, ymgysylltu â dysgwyr a chyfle cyfartal. Mae'r newidiadau mireinio a wnaed yn sgil y ddau ymgynghoriad wedi mynd ati i gryfhau cywirdeb cyfreithiol, lleihau dyblygu a gwella defnyddiadwyedd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ddeinamig ac yn gallu ymateb i amgylchiadau newidiol, gan ategu system addysg drydyddol gydnerth sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr i Gymru.

### Y Camau Nesaf

42. **Datblygu a gweithredu (2026/2027):** Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â darparwyr, cyrff cynrychiolaidd a dysgwyr i ddatblygu canllawiau gweithredol, diffiniadau cyffredin, prosesau data a thempledi cyn i fonitro rheolaidd ddechrau ym mis Hydref 2027.

43. **Deunyddiau ategol:** Byddwn yn cyhoeddi rhagor o gyngor a gwybodaeth yn 2026/27, gan gynnwys deunyddiau sector-benodol neu thematig lle maent o gymorth i ddehongli'r amodau rheoleiddio yn gymesur ac mewn modd sy'n sensitif i'r cyd-destun.

44. **Meithrin dealltwriaeth gyffredin:** Byddwn yn creu cyfleoedd ar gyfer deialog, gweithdai a gweithgareddau profi i ategu hyder yn y dull rheoleiddio, mireinio disgwyliadau a gwreiddio dealltwriaeth eglur, gyson am sut y mae cydymffurfio da yn edrych ar draws gwahanol fathau o ddarparwyr.

45. **Mireinio parhaus:** Er bod y strwythur rheoleiddiol bellach wedi'i bennu, byddwn yn parhau i ddiweddaru a mireinio manylder gweithredol wrth i'r system aeddfedu, gan sicrhau bod dulliau'n parhau i fod yn gymesur, yn dryloyw ac wedi'u halinio â gofynion statudol a deilliannau dysgwyr.

## Atodiad A – Ymatebion i Gwestiynau Caeëdig Cam Un[1]

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Dull Rheoleiddio | I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein gallu i gyrraedd nodau ein Cynllun Strategol?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 11% Cytuno'n Gryf<br>54% Cytuno<br>30% Anghytuno<br>5% Anghytuno'n Gryf |
| Dull Rheoleiddio | I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd ein Dull Rheoleiddio'n ategu ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr cymesur a seiliedig ar risg?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 10% Cytuno'n Gryf<br>5% Cytuno<br>31% Anghytuno<br>8% Anghytuno'n Gryf |
| Dull Rheoleiddio | I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r athroniaeth, yr egwyddorion a'r disgwyliadau a nodir yn ein Dull Rheoleiddio?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 16% Cytuno'n Gryf<br>34% Cytuno<br>27% Anghytuno<br>6% Anghytuno'n Gryf |
| Dull Rheoleiddio | A allai'r Dull Rheoleiddio, fel y'i nodir, gael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ddarparwyr trydyddol?<br>(Gallai / Yn rhannol / Na allai)<br>Os mai 'na allai' neu 'yn rhannol' oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai gael ei gymhwyso'n gyson. | 28% Gallai<br>32% Yn rhannol<br>40% Na allai |
| Dull Rheoleiddio | A yw'r Dull Rheoleiddio'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol drwy'r gwahanol Amodau?<br>(Ydy / Yn rhannol / Nac ydy)<br>Os mai 'nac ydy' neu 'yn rhannol' oedd eich ateb, rhowch fanylion sut y gallai gael ei adlewyrchu'n ddigonol | 19% Ydy<br>38% Yn rhannol<br>42% Nac ydy |
| Pwerau Ymyrryd | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr ymyriadau'n cyd-fynd â bwriadau'r Ddeddf?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 10% Cytuno'n Gryf<br>54% Cytuno<br>33% Anghytuno<br>3% Anghytuno'n Gryf |
| Pwerau Ymyrryd | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Datganiad o Ymyriadau'n cyd-fynd â'n Dull Rheoleiddio? | 8% Cytuno'n Gryf<br>59% Cytuno |

[1] Gallai rhai canlyniadau gynnwys gwallau talgrynnu. Mae'r nifer sail ar gyfer ymatebion a gwblhawyd yn amrywio o 47 i 104.

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | (Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 31% Anghytuno<br>3% Anghytuno'n Gryf |
| Pwerau Ymyrryd | A fyddai canllawiau atodol ar gyfer y Datganiad o gymorth?<br>(Byddent / Na fyddent)<br>Nodwch y meysydd lle byddai canllawiau atodol o gymorth. | 82% Byddent<br>18% Na fyddent |
| Amod – Cynaliadwyedd Ariannol | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl ddarparwyr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 44% Gallai<br>56% Na allai |
| Amod – Cynaliadwyedd Ariannol | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 36% Ydynt<br>64% Nac ydynt |
| Amod – Cynaliadwyedd Ariannol | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 33% Ydy<br>67% Nac ydy |
| Amod – Llywodraethu a Rheoli | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 49% Gallai<br>51% Na allai |
| Amod – Llywodraethu a Rheoli | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 33% Ydynt<br>67% Nac ydynt |
| Amod – Llywodraethu a Rheoli | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 43% Ydy<br>70% Nac ydy |
| Amod - Ansawdd | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 44% Gallai<br>56% Na allai |
| Amod - Ansawdd | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 34% Ydynt<br>66% Nac ydynt |
| Amod - Ansawdd | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 27% Ydy<br>73% Nac ydy |
| Amod – Sylw i Gyngor a Chanllawiau | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 84% Gallai<br>16% Na allai |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Amod – Sylw i Gyngor a Chanllawiau | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 65% Ydynt<br>35% Nac ydynt |
| Amod – Sylw i Gyngor a Chanllawiau | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 34% Ydy<br>66% Nac ydy |
| Amod – Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrwyr | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 77% Gallai<br>23% Na allai |
| Amod – Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrwyr | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 40% Ydynt<br>60% Nac ydynt |
| Amod – Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrwyr | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 34% Ydy<br>66% Nac ydy |
| Amod – Terfynau Ffioedd | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 69% Gallai<br>31% Na allai |
| Amod – Terfynau Ffioedd | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 69% Ydynt<br>31% Nac ydynt |
| Amod – Terfynau Ffioedd | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 31% Ydy<br>69% Nac ydy |
| Amod – Hysbysu am Newidiadau | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 72% Gallai<br>26% Na allai |
| Amod – Hysbysu am Newidiadau | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 40% Ydynt<br>60% Nac ydynt |
| Amod – Hysbysu am Newidiadau | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 28% Ydy<br>70% Nac ydy |
| Amod – Statws Elusennol | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 63% Gallai<br>37% Na allai |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Amod – Statws Elusennol | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 36% Ydynt<br>64% Nac ydynt |
| Amod – Statws Elusennol | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 33% Ydy<br>67% Nac ydy |
| Digwyddiadau y mae'n Rhaid eu Hadrodd | A allai'r amod gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 38% Gallai<br>62% Na allai |
| Digwyddiadau y mae'n Rhaid eu Hadrodd | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 31% Ydynt<br>69% Nac ydynt |
| Digwyddiadau y mae'n Rhaid eu Hadrodd | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 25% Ydy<br>75% Nac ydy |
| Fframwaith Ansawdd – Adran A | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y drafft yn nodi'r sail statudol ar gyfer y Fframwaith a'r hyn y mae wedi ei fwriadu i'w gyflawni?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 7% Cytuno'n Gryf<br>66% Cytuno<br>22% Anghytuno<br>4% Anghytuno'n Gryf |
| Fframwaith Ansawdd – Adran A | A yw cwmpas y diffiniad o ansawdd yn briodol?<br>(Ydy / Nac ydy)<br>Os nad ydyw, pa eglurhad pellach y mae ei angen? | 25% Ydy<br>75% No |
| Fframwaith Ansawdd – Adran B | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig yn briodol?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 6% Cytuno'n Gryf<br>73% Cytuno<br>16% Anghytuno<br>5% Anghytuno'n Gryf |
| Fframwaith Ansawdd – Adran D | I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig, sy'n cynnwys strwythuro rolau a chyfrifoldebau ar draws pob conglfaen?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 8% Cytuno'n Gryf<br>80% Cytuno<br>9% Anghytuno<br>3% Anghytuno'n Gryf |
| Fframwaith Ansawdd – Adran E | Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i ategu asesiadau o gydymffurfio â'r Fframwaith ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol? | 0% Cytuno'n Gryf<br>34% Cytuno<br>58% Anghytuno<br>8% Anghytuno'n Gryf |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | (Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | |
| Fframwaith Ansawdd – Adran E | A oes unrhyw flaenoriaethau eraill i'w hystyried mewn perthynas ag asesu ansawdd yn allanol?<br>(Oes / Nac oes)<br>Os oes, nodwch hwy yma | 75% Oes<br>25% Nac oes |
| Fframwaith Ansawdd – Adran E | Mae'r Fframwaith yn nodi ystod o setiau data i ategu asesiadau o ansawdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y ffynonellau data arfaethedig yn briodol?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 2% Cytuno'n Gryf<br>33% Cytuno<br>58% Anghytuno<br>6% Anghytuno'n Gryf |
| Fframwaith Ansawdd – Adran E | A oes unrhyw ddata arall y dylid ei ystyried?<br>(Oes / Nac oes)<br>Os oes, nodwch hwy yma | 91% Oes<br>9% Nac oes |
| Fframwaith Ansawdd – Adran F | A yw'r adran yn darparu eglurder ynghylch sut y bydd Medr yn ymyrryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd, safonau a gwella'n barhaus?<br>(Ydy / Nac ydy)<br>Os nad ydyw, pa eglurhad pellach y mae ei angen? | 31% Ydy<br>69% Nac ydy |
| Fframwaith Ansawdd – Myfyrdodau Terfynol | A oes unrhyw fylchau o fewn y Fframwaith y dylid mynd i'r afael â hwy?<br>(Oes / Nac oes)<br>Os oes, nodwch hwy yma | 82% Oes<br>18% Nac oes |
| Fframwaith Ansawdd – Myfyrdodau Terfynol | A oes unrhyw elfennau penodol o fewn y drafft cyfredol y dylid eu pwysleisio neu eu cryfhau?<br>(Oes / Nac oes)<br>Os oes, nodwch hwy yma | 89% Oes<br>11% Nac oes |
| Atodiad 1 | A yw'r Atodiad hwn yn ystyried y dogfennau a'r gofynion eraill allweddol ar gyfer pob rhan o'r sector?<br>(Ydy / Nac ydy)<br>Os nad ydyw, pa wybodaeth arall sy'n ofynnol? | 50% Ydy<br>50% Nac ydy |
| Y Gymraeg | A allai'r cynigion gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r | 75% Gallent<br>25% Na allent |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | Gymraeg?<br>(Gallent / Na allent)<br>Rhowch fanylion. | |
| Y Gymraeg | A allai'r cynigion gynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br>(Gallent / Na allent)<br>Rhowch fanylion. | 68% Gallent<br>32% Na allent |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br>(Byddant / Na fyddant / Yn rhannol)<br>Rhowch fanylion | 42% Byddant<br>54% Yn rhannol<br>3% Na fyddant |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>(Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol) | 31% Ydynt<br>65% Yn rhannol<br>4% Nac ydynt |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?<br>(Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol) | 25% Ydynt<br>71% Yn rhannol<br>4% Nac ydynt |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu?<br>(Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol) | 25% Ydynt<br>71% Yn rhannol<br>4% Nac ydynt |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?<br>(Ydynt / Nac ydynt / Yn rhannol) | 30% Ydynt<br>73% Yn rhannol<br>5% Nac ydynt |

## Atodiad B - Ymatebion i Gwestiynau Caeëdig Cam Dau[2]

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Amod – Lles Staff a Dysgwyr | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 62% Gallai<br>38% Na allai |
| Amod – Lles Staff a Dysgwyr | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 44% Ydynt<br>56% Nac ydynt |
| Amod – Lles Staff a Dysgwyr | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 41% Ydy<br>59% Nac ydy |
| Amod – Y Gymraeg | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 69% Gallai<br>31% Na allai |
| Amod – Y Gymraeg | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 61% Ydynt<br>39% Nac ydynt |
| Amod – Y Gymraeg | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 47% Ydy<br>53% Nac ydy |
| Amod – Cynlluniau Diogelu Dysgwyr | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 64% Gallai<br>36% Na allai |
| Amod – Cynlluniau Diogelu Dysgwyr | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 65% Ydynt<br>35% Nac ydynt |
| Amod – Cynlluniau Diogelu Dysgwyr | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 33% Ydy<br>67% Nac ydy |
| Amod – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 64% Gallai<br>36% Na allai |

[2] Gallai rhai canlyniadau gynnwys gwallau talgrynnu. Mae'r nifer sail ar gyfer ymatebion a gwblhawyd yn amrywio o 37 i 49.

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Amod – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 40% Ydynt<br>60% Nac ydynt |
| Amod – Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 28% Ydy<br>72% Nac ydy |
| Amod – Cyfle Cyfartal | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 65% Gallai<br>35% Na allai |
| Amod – Cyfle Cyfartal | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 48% Ydynt<br>52% Nac ydynt |
| Amod – Cyfle Cyfartal | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 37% Ydy<br>63% Nac ydy |
| Amod – Cyfle Cyfartal | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr amod Cyfle Cyfartal a'r manylion atodol yn darparu digon o eglurder ynghylch y disgwyliadau a'r gofynion ar gyfer darparwyr?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 5% Cytuno'n Gryf<br>37% Cytuno<br>56% Anghytuno<br>2% Anghytuno'n Gryf |
| Amod – Cyfle Cyfartal | I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd yr amod Cyfle Cyfartal yn hybu gwelliannau ystyrlon mewn cyfle cyfartal i ddysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 14% Cytuno'n Gryf<br>35% Cytuno<br>46% Anghytuno<br>5% Anghytuno'n Gryf |
| Amod – Gweithdrefnau Cwynion | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 79% Gallai<br>21% Na allai |
| Amod – Gweithdrefnau Cwynion | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 86% Ydynt<br>14% Nac ydynt |
| Amod – Gweithdrefnau Cwynion | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 46% Ydy<br>54% Nac ydy |
| Amod – Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol? | 74% Gallai<br>26% Na allai |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| | (Gallai / Na allai) | |
| Amod – Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 72% Ydynt<br>28% Nac ydynt |
| Amod – Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 46% Ydy<br>54% Nac ydy |
| Amod – Trefniadau Dilysu | A allai'r amod hwn gael ei gymhwyso'n gyson ar draws pob darparwr trydyddol?<br>(Gallai / Na allai) | 68% Gallai<br>32% Na allai |
| Amod – Trefniadau Dilysu | A yw gofynion yr amod yn gymesur?<br>(Ydynt / Nac ydynt) | 76% Ydynt<br>24% Nac ydynt |
| Amod – Trefniadau Dilysu | A yw'r amod hwn yn darparu digon o eglurder ynghylch y gofynion?<br>(Ydy / Nac ydy) | 43% Ydy<br>57% Nac ydy |
| Amod – Trefniadau Dilysu | I ba raddau ydych chi'n cytuno y gellid ymestyn yr amod Trefniadau Dilysu mewn modd defnyddiol i ddod yn gyngor neu ganllawiau ar gyfer partneriaethau trydyddol eraill, gan gynnwys trefniadau is-gontractio?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf) | 16% Cytuno'n Gryf<br>59% Cytuno<br>19% Anghytuno<br>5% Anghytuno'n Gryf |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015?<br>(Byddant / Yn rhannol / Na fyddant)<br>Rhowch fanylion os gwelwch yn dda. | 53% Byddant<br>44% Yn rhannol<br>2% Na fyddant |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br>(Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt) | 51% Ydynt<br>42% Yn rhannol<br>7% Nac ydynt |

| Adran | Cwestiwn | Canlyniadau |
|---|---|---|
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i wneud y canlynol: hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu? (Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt) | 47% Ydynt<br>49% Yn rhannol<br>5% Nac ydynt |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i wneud y canlynol: meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu? (Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt) | 44% Ydynt<br>51% Yn rhannol<br>5% Nac ydynt |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol) | A yw'r cynigion yn ystyried yr angen i leihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd gymdeithasol?<br>(Ydynt / Yn rhannol / Nac ydynt) | 39% Ydynt<br>48% Yn rhannol<br>14% Nac ydynt |
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn adlewyrchu amrywiaeth o ddysgwyr a darparwyr yn y sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf)<br>Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb. | 9% Cytuno'n Gryf<br>64% Cytuno<br>11% Anghytuno<br>17% Anghytuno'n Gryf |
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr egwyddorion arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr yn mynd i'r afael â'r agweddau allweddol ar ymgysylltu â dysgwyr?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf)<br>Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb. | 11% Cytuno'n Gryf<br>72% Cytuno<br>6% Anghytuno<br>11% Anghytuno'n Gryf |
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y dull monitro yn eglur ac yn gymesur?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf)<br>Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb. | 8% Cytuno'n Gryf<br>37% Cytuno<br>39% Anghytuno<br>16% Anghytuno'n Gryf |
| Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | I ba raddau ydych chi'n cytuno bydd ddarparwyr yn gallu cwrdd ag anghenion ffynonellau tystiolaeth heb faich gormodol?<br>(Cytuno'n Gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n Gryf)<br>Rhowch sylwadau i ategu eich ymateb. | 6% Cytuno'n Gryf<br>42% Cytuno<br>38% Anghytuno<br>15% Anghytuno'n Gryf |